



Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

CRËWYD

CRËWYD GAN

CADARNHAWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL

DYDDIAD ADOLYGU

10/2018

C Pryderi

09/10/18

Erbyn

12/2020

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Pennaeth Cynhwysiant/Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol(CADY): Mrs. Cei Pryderi
llywodraethwraig a chyfrifoldeb am ADY: Mrs. N. Jardine

1. Cyflwyniad

1.1 Nod y ddogfen hon yw cyfrannu tuag at gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol yn Ysgol Bro Teifi gan alluogi pob disgybl i gymryd rhan yn holl agweddau'r cwricwlwm, cyflawni ei botensial yn llawn a hyrwyddo'i hunan ddelwedd. Dylai pob athro fod yn darparu'n briodol ar gyfer pob disgybl drwy ddeall a dilyn egwyddorion dysgu gwahaniaethol.

Mae gan ddisgybl anghenion dysgu os:

- a) Oes ganddo/ganddi anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion/chyfoedion.
- b) Oes ganddo/ganddi anabledd corfforol sy'n ei rwystro ef/hi rhag cael mynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol.
- c) Oes ganddo/ganddi anghenion emosiynol neu gymdeithasol sy'n ei rwystro ef/hi rhag cael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae gan ddisgybl allu dysgu eithriadol os:

- a) Oes ganddo/ganddi allu dysgu sy'n sylweddol uwch na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion/chyfoedion. (Gweler polisi Galluog a thalentog)

1.2 Mae'r ysgol o blaid 'Polisi Ysgol Gyfan' i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, a bydd yn darparu:

- i) addysg o ansawdd uchel i bob disgybl.
- ii) cydraddoldeb cyfle addysgol i bob disgybl.

Diffiniad o gydraddoldeb yw:

- a) yr hawl i'r disgyblion dderbyn eu haddysg gyda'u cyfoedion.
- b) yr hawl i dderbyn addysg sydd wedi ei wahaniaethu er mwyn cwrdd ag anghenion unigol.
- c) yr hawl i gyfraniad y plentyn dderbyn ystyriaeth ar sail gyfartal ag eraill.

1.3 "Mae anghenion addysgol arbennig gan blant os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am wneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer."

"Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu ... darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol, neu'n wahanol mewn modd arall, i'r ddarpariaeth addysgol a wneir fel rheol ar gyfer plant o'u hoed mewn ysgolion ... yn yr ardal." (Adran 312, Deddf Addysg 1996)

Gall plant fod ag anghenion addysgol arbennig naill ai drwy gydol, neu ar unrhyw adeg yn ystod, eu gyrfa ysgol. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod asesu a chynllunio ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig yn rhoi ystyriaeth deg i natur a graddau'r anhawster sydd gan y plentyn.

1.4 Mae'r polisi yn sicrhau bod llais y plentyn, yn unol â'i oed, ei aeddfedrwydd a'i allu, yn cael ei glywed yn yr holl gynllunio a wneir ar ei ran.

2. Nodau ac Amcanion yr Adran.

Mae'r polisi yn cymryd i ystyriaeth Y Cod Ymarfer a'r ddeddf Anghenion Arbennig ac Anabledd 2001. (O 1af o Hydref 2010, wnaeth y ddeddf Cydraddoldeb ddisodli'r ddeddf gwahaniaethu ar sail anabledd. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r bartneriaeth â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol 2012). Serch hyn fe anogir i rieni plentyn â phroblemau symudedd gysylltu â'r adran addysg mewn da bryd o ddyddiad dechrau'r plentyn yn yr ysgol uwchradd er mwyn cynnal cyfarfodydd gyda'r ysgol

2.1 Nodau.

- Mae'r Adran yn annog ac yn gweithio'n agos gyda'r uwch dim rheoli i geisio sicrhau cwricwlwm ac amserlen sy'n addas ar gyfer anghenion y disgyblion. Adolygir y ddarpariaeth yn rheolaidd ar gyfer disgyblion presennol a'r dyfodol.
- Bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn cael ei gwrdd o fewn y dosbarthiadau, ond i rai, os tybir fod hyn yn addas, bydd plant yn cael eu dysgu yn unigol neu o fewn grwpiau bach. Ar adegau bydd yn addas i dynnu rhai unigolion allan o'r dosbarth dysgu arferol i ddilyn rhaglen ymyrraeth, gyda chydysyniad y disgybl a'r rhieni er mwyn cwrdd â'u hanghenion unigol.
- Mae'r adran yn trosglwyddo gwybodaeth i'r holl athrawon am anghenion disgyblion, ar ddiwrnod HMS ar ddechrau bob blwyddyn, yna ar fewnrwyd yr ysgol ac mewn cyfarfodydd boreol.
- Cynghori ac yn awgrymu cyfleoedd HMS i athrawon a staff ategol ar wahaniaethu a chyflwyno cwricwlwm cynhwysol.
- Sicrhau addysg o safon uchel o fewn cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol ac addas er mwyn rhoi pob cyfle i ddisgyblion gyrraedd eu llawn botensial a gwella'u hunanddelwedd.
- Creu amgylchfyd sy'n cwrdd â gofynion anghenion addysgol arbennig disgyblion er mwyn hybu eu datblygiad ymenyddol, emosiynol a chymdeithasol er mwyn dysgu iddynt sgiliau ac egwyddorion a fydd yn eu galluogi i ddatblygu i fod yn aelodau llawn o gymdeithas yr ysgol a'r gymdeithas ehangach yn y dyfodol.
- Sicrhau bod anghenion addysgol arbennig plant yn cael eu hadnabod a'u hasesu.
- Ateb gofynion addysgol ac emosiynol y plant drwy sicrhau fod y ddarpariaeth ar eu cyfer yn addas ac yn gwneud defnydd o adnoddau priodol.

2.2 Amcanion.

Mae'r amcanion canlynol yn egluro sut mae'r strwythur o fewn yr ysgol yn sicrhau fod y Nodau uchod yn cael eu gweithredu.

- Bydd y CADY yn cydweithio gyda'r tîm rheoli hyn i sicrhau fod yr amserlen ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gytbwys ac yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm. Bydd y cwricwlwm yn addas i anghenion pob disgybl er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn medru profi llwyddiant.
- Bydd y CADY yn codi ymwybyddiaeth athrawon pwnc am anawsterau addysgol, corfforol, emosiynol neu ymddygiadol disgyblion newydd drwy roi gwybodaeth amdanynt i bob adran. Felly bydd modd i'r athrawon a fydd yn eu dysgu addasu eu dull o ddysgu a/neu wahaniaethu eu hadnoddau ar lefel addas ar eu cyfer. Bydd y cymorthyddion yn ymwybodol o anghenion y disgyblion yn eu gofal ac yn medru cynnal y plant er mwyn hybu eu

dealltwriaeth o gynnwys eu gwersi. Byddant hefyd yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

- Bydd y CADY yn asesu a monitro disgyblion newydd i sicrhau fod y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu rhoi ar gofrestr ADY yr ysgol ac yn derbyn y sylw priodol.
- Bydd y CADY yn cynghori'r adrannau ar ddulliau ac adnoddau addas ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol a bydd y wybodaeth yma ar fewnwyd yr ysgol.

3. Adnabod, Cyfeirio, Asesu a Chofnodi.

3.1 Adnabod a chyfeirio

a) Mae'n hollbwysig fod anawsterau disgyblion yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosib. Yn bennaf, bydd y CADY yn seilio ei hasesiad o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (a'r ddarpariaeth ar eu cyfer) ar wybodaeth flaenorol, a ddaw fel rheol drwy gyfrwng cyfarfodydd trosglwyddo meithrin/cynradd/uwchradd. Bydd ysgolion cynradd y dalgylch yn cysylltu gyda'r CADY i drefnu cyfarfodydd trosglwyddo ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 yn ysgol Bro Teifi yn nhymor y Nadolig. Bydd y cyfarfodydd a'r paratoi yn ogystal â'r dyddiau ymdrwytho yn galluogi i'r trosglwyddiad fod mor llyfn â phosib.

b) Bydd yr athrawon pontio meithrin/cynradd/uwchradd a'r penaethiaid cynradd lleol yn trosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion ag anghenion ychwanegol, er mwyn sicrhau darpariaeth briodol.

c) Gall y disgyblion, rhieni neu athrawon gyfeirio disgybl at y CADY er mwyn asesu'r plentyn yn bellach. Bydd hyn yn ychwanegol i'r profion sy'n cael eu cynnal yn y dosbarthiadau meithrin/derbyn/bl1 lle bydd asesiad athro dosbarth drwy arsylwi a hefyd gwaelodlin ar gyfer disgyblion meithrin a derbyn (PAD). Rydym yn tracio'r Cyfnod Sylfaen drwy ddefnyddio'r arf dracio 'Y daith darllen'. Mae'r profion Cenedlaethol yn arf asesu safonol a statudol o ddiwedd blwyddyn 2 i flwyddyn 9. Yn seiliedig ar y canlyniadau, gall asesiadau pellach gael eu cynnal gan y CADY neu'r asiantaethau allanol. Sefydlir cysylltiadau agos gyda gwasanaeth cefnogi'r Awdurdod Addysg a gwasanaethau allanol eraill er mwyn sicrhau bod Ysgol Bro Teifi yn cynllunio'r ddarpariaeth orau i'n disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Pan mae angen cysylltu gydag asiantaethau allanol, bydd y CADY yn gwneud y trefniadau priodol a thrafod gyda rhieni/warcheidwaid yn ôl y gofyn. Rhestrir isod y gwasanaethau y gellir cysylltu â nhw:

- Seicolegydd Addysgol
- Uwch Swyddogion Sirol
- Gwasanaeth Iaith a Lleferydd
- Tîm Ymddygiad Ceredigion
- Gwasanaeth ieuencid Ceredigion
- Gwasanaeth ffisiotherapi a therapydd galwedigaethol
- Gwasanaeth adferiad cyfiawnder ieuencid Ceredigion (Restorative Justice)
- Gwasanaethau plant
- Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc
- Tîm o Amgylch y Teulu
- Prosiect Amethyst

- Iechyd: - nyrs yr ysgol, nyrs diabetig, doctoriaid, ffisiotherapydd,
- CAMHS
- CRUSE
- CHOICES
- Tîm Plant Anabl
- Tîm Sensori (clyw a gweledol)
- Gyrfaoedd Cymru
- Dechrau'n Deg
- SEBSA
- SALTSA

3.2 Asesu.

Bydd pob disgybl yn cael eu hasesu yn ystod eu hamser ym Mro Teifi. Bydd athrawon dosbarth yn asesu drwy arsylwi yn y dosbarthiadau meithrin, derbyn a blwyddyn 1. Bydd hefyd gwaelodlin ar gyfer disgyblion meithrin a derbyn (PAD). Rydym yn tracio'r Cyfnod Sylfaen drwy ddefnyddio'r arf dracio 'Y daith darllen'. Mae'r profion Cenedlaethol yn arf asesu safonol a statudol o ddiwedd blwyddyn 2 i flwyddyn 9. Ym mis Mai bydd Profion Cenedlaethol yn cael eu cynnal sy'n sgrinio darllen a deall yn y ddwy iaith a hefyd rhifedd. Bydd disgyblion yn cael eu gosod ar y man priodol ar y gofrestr anghenion ychwanegol yn ystod tymor y Nadolig. Bydd yr ysgol yn dilyn meini prawf Sir Ceredigion. Ar ôl y broses sgrinio ac ar ôl trafodaethau rhwng y CAAA a'r penaethiaid ffes ac athrawon bydd pob disgybl sydd heb gyrraedd sgôr penodedig o fewn ei flwyddyn yn derbyn ymyrraeth er mwyn gwella'i sgôr. Yn ogystal â'r profion llythrennedd a rhifedd, bydd pob disgybl yn sefyll Profion Gallu Gwybyddol (CAT) ar ddechrau blwyddyn 7.

3.3 Cofnodi.

Lleolir y disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol ar gofrestr ADY yr ysgol yn eu cyfnod priodol, yn seiliedig ar feini prawf yr AALI. Yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru, bydd yr ysgol yn ymateb i anghenion addysgol arbennig y disgyblion ar y lefel briodol:

Ymateb graddedig Ceredigion

GY/SA - Gweithredu Ysgol/ School Action

GYM/SAP – Gweithredu Ysgol a Mwy/School Action Plus

GYMCA/SAPRA - Gweithredu Ysgol a Mwy (Cytundeb Adnoddau)/School Action Plus Resourced Agreement

DATGANIAD /Statement

(Mae GYM/SAPRA erbyn hyn yn cael ei gofnodi fel GYM at ddibenion PLASC, er bod disgyblion SAPRA yn derbyn ddarpariaeth debyg i ddatganiad gan hawlio'r un math o ddarpariaeth a chyllid.)

- Gweithredu Ysgol: mae'r CAAA yn chwarae rhan flaenllaw wrth asesu a chasglu tystiolaeth, rhannu'r wybodaeth â staff a chydlynu'r ddarpariaeth yn yr Ysgol.
- Gweithredu Ysgol a Mwy: bydd y disgybl yn derbyn cefnogaeth yr athro dosbarth ac ar adegau chymhorthydd/arbenigwr llythrennedd a/neu rifedd, neu drwy athrawon yn gwahaniaethu ar sail gwybodaeth gan y CAAA/awgrymiadau asiantaethau allanol;
- Gweithredu Ysgol a Mwy Cytundeb Adnoddau: bydd y ddarpariaeth ar gyfer y disgybl yn amrywio yn ôl ei angen/gallu naill a'i mewn dosbarth prif ffrwd neu ddosbarth llai. Gall fod yna gymhorthydd yn y dosbarth. Gall arbenigwr llythrennedd, rhifedd neu

ddefnydd cymdeithasol o iaith gefnogi'r plentyn mewn sesiynau sydd wedi eu hamserlenni.

- Aseiad Swyddogol//Datganiad/Gweithredu Ysgol a Mwy Cytundeb Adnoddau: os bydd yr AALI yn ystyried yr angen am aseiad statudol gall fynnu aseiad amlddisgyblaethol a all arwain at gyhoeddi Datganiad ffurfiol o anghenion addysgol arbennig. Gall hyn arwain at adnoddau dysgu gwahaniaethol a derbyn cefnogaeth cymhorthydd yn y dosbarth. Bydd angen i'r CAAA gasglu tystiolaeth wrth y disgybl, rhiant, staff ac asiantaethau eraill ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth hanesyddol a phresennol. Os oes gan ddisgybl ddatganiad neu Gytundeb Adnoddau Gweithredu Ysgol a Mwy, bydd yr holl asiantaethau sydd ynghlwm â'r plentyn yn cael gwahoddiad i adolygiad blynyddol y disgybl, yn cynnwys y cynllun trosglwyddo 14+ er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i gyfnod allweddol 4, i'r chweched dosbarth, colegau addysg bellach/preswyl, neu i fyd gwaith.
- Holl ystod: Bydd angen creu cynllun addysg/ymddygiad unigol neu grŵp. Adolygiad o'r cyfnod ADY i gyd-fynd a meini prawf y Sir ac awdit blynyddol o ddarpariaeth ADY;

4 Adnoddau dynol.

4.1 Rôl y Cydgyssylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, (CADY)

- rheoli gweithrediad y polisi o ddydd i ddydd.
- cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion arbennig y plant a rheoli'r ymatebion i'r anghenion hynny.
- cefnogi a chynghori cydweithwyr.
- cynnal archwiliad blynyddol;
- cynnal a chadw cofrestr ADY yr ysgol.
- paratoi a diweddarau llawlyfr ADY a dosbarthu copi i bob cydgyssylltydd adran.
- cynnal adolygiadau blynyddol.
- cyfrannu at gofnodion pob plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a rheoli'r cofnodion hynny.
- rheoli'r broses sgrinio o fewn yr ysgol a chwblhau'r ddogfennaeth sydd yn ofynnol gan asiantaethau allanol a'r AALI.
- ysgrifennu adroddiadau ar unigolion er mwyn sicrhau trefniadau arbennig mewn arholiadau CBAC.
- gweithredu fel cyswllt â'r rhieni.
- gweithredu fel cyswllt rhwng asiantaethau allanol ac asiantaethau cynhaliol eraill.
- cynnal a chadw adnoddau ac ystod o ddeunyddiau dysgu a fydd yn galluogi darpariaeth briodol.
- paratoi a diweddarau cynlluniau addysgol unigol.
- monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig a chyflwyno adroddiadau i'r llywodraeth wraig sydd â chyfrifoldeb am anghenion addysgol ychwanegol.
- rheoli amrediad o adnoddau, yn ddynol a materol, sy'n gysylltiedig â phlant ag anghenion addysgol ychwanegol.
- hyrwyddo llwyddiant a hunanddelwedd gadarnhaol.
- hwyluso mynediad i'r cwricwlwm cyfan.
- dyfeisio rhaglenni dysgu unigol a dysgu grŵp sy'n ystyried anghenion unigol y plentyn.
- cynorthwyo gyda threfniadau arholiad a rhoi cyngor arnynt.

Dylai pob athro a staff ategol gael mewnbwn yn natblygiad polisi ADY yr ysgol a'u bod yn ymwybodol o drefn yr ysgol o weithredu, drwy adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ADY.

4.2 Rôl y Cynorthwywyr Cynnal Dysgu.

Mae'r Cynorthwywyr Cynnal Dysgu yn ymwneud o ddydd i ddydd â chynnal disgyblion unigol neu grŵp sydd ag anghenion ychwanegol. Bydd y cynorthwywyr yn atebol i'r CADY. Mae eu dyletswyddau yn ymestyn tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn cynnwys :

- cyflawni dyletswyddau fel y maent wedi eu pennu gan y CADY ac athro neu athrawes ddosbarth/pwnc.
- gweithio gyda'r disgyblion yn y modd a bennwyd ac ateb nôl i'r CADY ynglŷn ag effeithiolrwydd y dulliau yma.
- datblygu dealltwriaeth o anghenion disgyblion a'u dulliau o weithio.
- cyfoethogi hunan-barch disgyblion.
- cadw cofnodion am ddatblygiad a chynnydd y disgybl ac unrhyw drafferthion neu broblemau fydd yn codi.
- bod o gymorth i bob disgybl o fewn y dosbarth.
- mynychu cyfarfodydd yn ôl y gofyn.
- helpu gyda gwaith gweinyddol o fewn yr adran.
- gweithredu fel model rôl dda o gwmpas yr ysgol, gan ymgymryd â rôl gyffredinol o ofal am y disgyblion, yr adeiladau a'r adnoddau;
- bod yn barod i addasu a bod yn hyblyg o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau fel y bo angen.

Yn ychwanegol i'r dyletswyddau uchod, bydd y cymorthyddion lefel uwch yn:

- paratoi gwaith unigol neu wahaniaethol ar gyfer rhai disgyblion dan arweiniad y CADY neu athro/athrawes pwnc;

Datblygiad proffesiynol:

a) Drwy fonitro a gwerthuso darpariaeth, mae'r CADY drwy drafodaeth gyda'r staff cynhwysiant mewn cyfarfod anffurfiol a hefyd ar ôl cyfarfodydd rheoli perfformiad, a chefnogaeth y prifathro, yn adnabod anghenion datblygiad proffesiynol unigolion. Bydd staff sydd wedi cwblhau cyrsiau yn adrodd nôl i'r adran mewn cyfarfodydd adran.

b) Mae hyfforddiant mewnol ar gael yn ystod rhai sesiynau cyfarfodydd adrannol ac yn ystod diwrnodau gosod er mwyn codi ymwybyddiaeth y staff o faterion ADY.

c) Mae'r CADY yn cwrdd yn dymhorol gyda swyddogion anghenion ychwanegol yr awdurdod addysg a CADYau ysgolion eraill y Sir.

ch) Gall staff unigol fanteisio ar gyfleoedd i gael cymwysterau neu hyfforddiant ychwanegol drwy'r gwaith. E.e. SEBSA, ELKLAN, ELSA.

4.3 Rôl y Llywodraethwyr

Rhaid i gorff llywodraethol yr ysgol sicrhau fod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ateb gofynion statudol Cod Ymarfer Cymru gan gynnwys y camau canlynol:

- Sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol ar gael i unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol ychwanegol.
- Sicrhau, lle mae'r AALI wedi hysbysu'r 'person cyfrifol' (y pennaeth neu'r llywodraethwr priodol) fod gan ddisgybl anghenion addysgol ychwanegol, y bydd pawb sy'n debygol o'i addysgu yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r anghenion hynny.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i rieni ar weithrediad polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol.

5. Cyllid.

- 5.1 Cynhelir cyfarfod cynllunio ADY yn flynyddol ac mae ariannu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn seiliedig ar yr archwiliad.
- 5.2 Bydd y prifathro yn rhoi gwybodaeth i'r corff llywodraethol am y modd y defnyddiwyd yr arian a ddyrannwyd ar gyfer cefnogi anghenion addysgol ychwanegol.
- 5.3 Bydd y CADY yn gyfrifol am reolaeth weithredol yr adnoddau penodedig y cytunwyd arnynt er mwyn darparu ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol yn yr ysgol.

6. Gweithredu.

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn gweithredu fel a ganlyn:

- Addysg mewn dosbarthiadau prif ffrwd, gan dderbyn cymorth ychwanegol gan athrawon a chefnogaeth drwy wahaniaethu tasgau, esboniadau a chanlyniad disgwyliedig.
- O fewn grŵp bach neu'n unigol mewn cyfnodau 'tynnu allan' gyda chynorthwyydd, SEBSA, staff allanol iaith a lleferydd, neu aelod o'r chweched dosbarth;
- O fewn y brif ffrwd gyda chynhaliadaeth cymhorthydd;
- Yn ystod clybiau boreol i'r disgyblion sy'n rhan o'r cynllun darllen a/neu sillafu a/neu rifedd.
- Drwy dynnu rhai disgyblion allan o wersi Ffrangeg, Cerddoriaeth, Addysg Grefyddol neu Ddrama er mwyn dilyn rhaglen strwythuredig unigol;
- Drwy gyfnodau rheolaidd o dynnu allan o'r brif ffrwd i weithio ar raglen unigol er mwyn targedu sgiliau llythrennedd a/neu rifedd.
- Drwy dynnu allan o wersi i dderbyn cefnogaeth emosiynol neu ymddygiadol o fewn yr Hafan.
- O fewn y 'Clwb Cwtsh' I ddatblygu sgiliau.
- Rhaglenni unigol sgiliau bywyd.
- Drwy ddewis un opsiwn yn llai ym Mlwyddyn 10 ac 11.
- Drwy ddilyn cynlyn Agored Cymru/Cynnydd (BTech)

- Drwy ddilyn cwricwlwm amgen y Sir.
- Drwy gael trefniadau arbennig mewn arholiadau.

7. Llais y disgybl

- Drwy wrando ar lais y disgybl wrth hunan gyfeirio a gofyn am asesiad gyda chaniatâd y rhieni.
- Drwy ofyn am farn y disgybl yn ysgrifenedig yn ystod yr adolygiad blynyddol ac i fynychu'r cyfarfod os ydynt yn dymuno.
- Y disgyblion yn cyfrannu at osod targedau eu hunain ac i feddwl am y strategaethau sy'n gweithio iddyn nhw.
- Drwy bostio eu gofidiau yn y 'Bocs beco' a 'Bwci Bo Beco'.
- Drwy weithgareddau amser cylch
- Drwy gael cynrychiolaeth o ddisgyblion sydd ar gofrestr anghenion ychwanegol ar y Cyngor Ysgol.
- Drwy hunan asesu ac asesu cyfoed mewn gwersi.
- Drwy gwblhau holiaduron papur ac ar lein.

8. Cwynion

Os oes gan riant/warcheidwad gwyn yn ymwneud a threfniadau ar gyfer eu plentyn, dylent drafod hyn gydag athro dosbarth neu bennaeth ffes/is-bennaeth ffes neu'r CADY. Os nad oes datrysiad yna dylid cyfeirio'r mater at y Pennaeth. Os nad oes datrysiad wedyn gall y rhiant/warcheidwad gysylltu gyda'r llywodraethwyr. Os nad oes datrysiad er hyn mi ellir mynd a'r mater at yr Awdurdod Lleol.

Mae'r polisi hwn yn weithredol yn Ysgol Bro Teifi.

Arwyddwyd:  Pennaeth

Trafodwyd a derbyniwyd y polisi hwn gan y Corff Llywodraethu.

Arwyddwyd:  Cadeirydd

Dyddiad: 09/10/2018